Roedd y Cadeirydd yn bresennol yng Nghyfarfod Cadeiryddion GRhS yn Llundain ym mis Tachwedd, a diolchodd i John Richards o Gyngor Cymuned Talsarnau am fynychu gweithdy i randdeiliaid ym mis Ionawr ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru ar reoli dros y tymor hir a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Cafwyd adroddiad ar y cyfarfod gan John Richards, ac ychwanegodd nad oedd wedi cael unrhyw ohebiaeth ers y cyfarfod hwnnw; h.y. rhestr o waith a chamau i'w cyflawni. Dylent fod ar gael ers mis Chwefror ond nid oedd wedi cael dim hyd yma. Roedd John Idris Jones hefyd yn bresennol, ac ychwanegodd fod y gweithdy wedi canolbwyntio'n bennaf ar brosesau ymgynghori; ac efallai bod oedi wedi bod cyn rhannu'r adborth o ganlyniad i'r etholiadau lleol a'r etholiad cyffredinol.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y bod digwyddiad Cenedlaethol Rhanddeiliaid yr ADN yn cael ei gynnal ym mis Medi 2017 yn Cumbria.

Adroddiad Cyfarwyddwr Cau Safle Trawsfynydd – Martin Moore

Cyflwynodd Martin Moore grynodedb o'i adroddiad a oedd wedi'i ddisbarthu ymlaen llaw, gan dynnu sylw at y canlynol: Roedd cynnydd da wedi'i wneud ar y safle o ran lleihau peryglon, a diogelwch; roedd cynnydd rhagorol wedi'i wneud ar gomisiynu gweithredol y NFED (Gweddillion Elfen Danwydd y Gogledd) yn ystod y flwyddyn a aeth heibio yn ogystal â MSV (Ffawtiau Llaidd Amrywiol). Mae'r gwaith arferol i waredu asbestos wedi parhau ynghyd â materion cydymffurfiaeth. Mae gwaith perfformiad ar y safle wedi mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen, yn ddiogel a chan gydymffurfio â'r rheoliadau. Bydd y gwaith yn parhau am weddill y flwyddyn, gan symud ymlaen wedyn i waith glanhau gweithrediadol.

O ran rhaglenni cyfarpar a seilwaith, h.y. cladin a chael gwared ar y gwydr, mae cynnydd da'n cael ei wneud ar Adeiladau'r Pyllau a Storfeydd Diogel yr Adweithydd trwy barhau i symud deunyddiau a gwaredu'r deunyddiau etifeddiaeth a oedd wedi'u storio.

Roedd gwaith wedi'i wneud ar ofal asedau, h.y. cydrannau ar y safle fel camerâu, draeniau a diogelwch tân i sicrhau lefelau hyder. Roedd buddsoddiad wedi'i wneud hefyd

mewn systemau diogelwch priodol. Roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud i symud i drefniadau argyfwng diwygiedig, gan weithio â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod pawb yn ei deall. Cafwyd adborth da gan y gweithlu ar y trefniadau newydd ac roedd y patrymau gweithio wedi cael eu newid ar sail hynny. Roedd Magnox yn hapus â'r trefniadau argyfwng newydd a oedd, fel y gellid disgwyl, yn gyfrinachol.

Bu llawer o newid yn ôl troed y safle, gyda rhai asedau wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Rhestrwyd cerrig milltir allweddol: mae'r MSV wedi symud i weithredu arferol; disgwylir y bydd dwy storfa ddiogel yr adweithydd yn cael eu cloi eleni. Roedd y Pyllau yn Nhrawsfynydd, lle'r arferai tanwydd a dŵr gael eu storio wedi gweld llawer o weithgarwch gweddilliol yn cael ei waredu a bydd y gwaith glanhau terfynol yn cael ei gwblhau eleni. Roedd Trawsfynydd yn cael enw da fel safle cyfeirio i Magnox, ac roedd hynny'n beth da; cafodd y gweithlu ei gydnabod am ei waith ardderchog ac am ei ymroddiad.

Cwestiynau a sylwadau

Gofynnodd John Richards, Cyngor Cymuned Talsarnau a oedd modd cael canran o'r hyn a gwblhawyd yn erbyn cynnydd. Yn ei ateb, dywedodd Martin Moore fod y rhaglen wedi'i chyflwyno i'r ADN y flwyddyn flaenorol a bod perfformiad yn erbyn y rhaglen (hyd at 2022) yn dda. Y nod oedd 100% ar dawelu a storio gwlyb erbyn diwedd y flwyddyn, a bod NFED yn cadw at yr amserlen i gwblhau yn 2021. Roedd braidd yn gynnar ar hyn o bryd i ragweld a ellid cwblhau hyn yn gynnar. Roedd blaenoriaethu'r cynllun cynnydd ar waith a chafwyd eglurhad o'r ansicrwydd o fewn gwaith y cynllun. Disgwylir cwblhau tua 90% yn erbyn proffil y cynllun.

Cwestiynau a sylwadau

Diolchodd John Idris Jones, Ardal Fenter Eryri i Martin Moore am yr ymweliad â'r safle. Roedd wedi bod yn braf cael siarad â'r gweithwyr a rhaid canmol eu proffesiynoldeb. Gofynnodd John Idris Jones a oedd cynlluniau i leihau mwy ar uchder yr adeiladau na'r hyn sydd yn y cynllun cyfredol. Ymhelaethodd Jonathan Jenkin (ADN) ar hyn trwy ddweud bod astudiaethau wedi'u cynnal ar leihau uchder yn gynnar a dymchwel parhaus, gyda gwybodaeth wedi'i chyflwyno i'r ADN. Roedd dau safle allweddol yn y DU lle gallai hyn fod yn bosibl, yn amodol ar gyllid, a'r rhain oedd Trawsfynydd a Berkley, am wahanol resymau. Roedd llawer i'w wneud cyn y ceid penderfyniad ar hyn. Roedd opsiwn i fwrw ymlaen â gwaith ffisegol, ac os oedd awydd o gyfeiriad y Llywodraeth i wneud hyn, gellid newid y rhaglen, yn amodol ar gyllid. Ni allai Jonathan Jenkin roi amserlen. Fodd bynnag, mewn termau lefel uchel dangoswyd ei fod yn ymarferol ac roedd yn hapus i roi diweddariad ar yr amserlen pan fyddai ar gael. Roedd John Idris Jones yn teimlo bod hyn yn bwysig iawn, yn enwedig yn yr ardal fenter lle'r oedd parhau i gyflogi ar y safle am gyhyd â phosibl yn holl bwysig, a phwysodd ar GRhS i gefnogi datgomisiynu parhaus.

Diolchodd y Cadeirydd i Martin Moore am yr adroddiad a thynnodd sylw at y defnydd o acronymau, gan ofyn am eglurhad, yn enwedig gan fod aelodau newydd ar y grŵp nad oedd efallai'n gyfarwydd â hwy. Hefyd canmolodd y Cadeirydd y deialog positif â'r gweithlu.

5. Cyflwr Terfynol Trawsfynydd wedi'i Optimeiddio – Ian Warner

Cafodd y grŵp sicrwydd gan Ian Warner mai treial yw'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ac nad oes dim penderfyniadau wedi'u gwneud eto. Cafwyd cyflwyniad ar GRR (Canllaw ar Ofynion Rhyddhau Safle Niwclear o Reoliad Sylweddau Ymbelydrol) y safle o'r rheoliad gan CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru), rhan o waith ehangach i ddod o hyd i'r ffordd orau o reoleiddio safleoedd yng nghanau olaf datgomisiynu. Cafodd amserlen ar gyfer y gwaith ei chyflwyno ar gyfer y darn mwy hwn o waith o ymgysylltu cyn Ymgynghori yn Nhachwedd - Rhagfyr 2016, gyda disgwyl Cydsyniad Brenhinol yn haf 2019. Roedd Brexit wedi cael effaith negyddol ar yr amserlen hon ac roedd yn debygol na fyddai amser Seneddol ar gael i wneud newidiadau deddfwriaethol. Er mwyn ildio'r drwydded amgylcheddol, roedd yn rhaid i'r gweithredwr ddangos diogelwch radiolegol ac amgylcheddol a bod cyflwr terfynol y safle wedi'i optimeiddio. Cafwyd esboniad o gysylltiad yr ADN â'r treial. Roedd safle Trawsfynydd wedi cael ei gynnig gan yr ADN fel un o dri safle *arwain a dysgu*, a fyddai'n cael eu defnyddio i roi prawf ar y GRR drafft ac i ganfod a datrys unrhyw broblemau. Nid oes dim penderfyniadau wedi'u gwneud eto ac mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar dybiaethau e.e. y bydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn digwydd. Ar sail y treialon hyd yma y farn oedd y gellid gwneud achos diogelwch i adael gwastraff ar safle Trawsfynydd; roedd yr achos hwn wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Rheolydd fel rhan o'r treial ac roedd disgwyl adborth ym mis Medi/Hydfref 2017. Bydd y ddeialog bresennol â rhanddeiliaid yn parhau fel rhan o'r broses ymgysylltu. Roedd gweithdy i rhanddeiliaid wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2016, lle cafodd dau opsiwn eu hystyried: 1 – symud yr holl wastraff o'r safle, 2 – cadw peth gwastraff ar y safle. Yn y diwedd opsiwn 2 a gafodd y sgôr uchaf.

Rhestrwyd manylion y camau nesaf h.y. adborth gan y rheolyddion ar yr achos technegol, parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwneud rhagor o waith ar optimeiddio Cyflyrau Terfynol y Safle (SES), a'r hyn y gallai hynny ei olygu, datblygu'r dogfennau Rheoleiddio gofynnol ymhellach, gan gynnwys yr achos diogelwch yn ôl yr angen trwy 17/18 a cheisio cytuno ar ffordd ymlaen, o bosibl yn 2018/19. Dangoswyd ac esboniwyd amserlen GRR Trawsfynydd.

Cwestiynau a sylwadau

Cafwyd cais o'r llawr am esboniad o SMR (adweithydd modiwlaid bychan). Dywedodd Martin Moore fod sawl cwmni gwahanol wedi ymweld â'r safle. Byddai'r penderfyniad i fwrw ymlaen â SMR yn cael ei wneud gan y Llywodraeth. Byddai Magnox yn parhau i groesawu ymweliadau gan unrhyw ddatblygwyr posibl.

Dywedodd Idwal Williams, Trawsnewid fod tri safle mewndirol yn cael eu hystyried (Trawsfynydd, Winfrith yn Dorset a Dounreay yn Caithness) ac awgrymwyd fod potensial am arian sylweddol i ardal Trawsfynydd o ganlyniad i'r prosiect hwn, os caiff ei wireddu, a byddai hynny'n rhoi hwb i'r gefnogaeth iddo'n lleol. Ymatebodd Ian Warner gan ddweud fod gwaith rhagarweiniol wedi cael ei wneud fel rhan o ymdrechion i wneud yr achos ac roedd y gwaith hwn wedi dangos y byddai angen 6,000 o dripiâu HGV i symud gwastraff ymbelydrol o'r safle, os gwneid penderfyniad i ddilyn y trywydd hwnnw. Rhannodd Ian ei

farn y gellid gwneud achos technegol hefyd dros adael peth gwastraff mewn safleoedd arfordirol yn ogystal â safleoedd mewndirol a bod ymchwil yn cael ei wneud i hynny. Ychwanegodd Martin Moore ei fod yn cydnabod angen y gymuned am waith lleol; fodd bynnag roedd Mr. Williams am weld mwy o fuddiannau ar ffurf seilwaith i'r gymuned leol o ganlyniad i waith datgomisiynu.

Gofynnodd Meredydd Williams – Cyngor Cymuned Maentwrog beth fyddai'r effaith amgylcheddol, beth oedd yr opsiwn gorau o ran symud / storio gwastraff. Wrth ymateb, dywedodd Ian Warner mai gwaredu ar y safle oedd yr opsiwn a oedd yn sgorio uchaf o ran lleihau'r effaith amgylcheddol gyffredinol. Byddai cloddio a symud tua 75,000 tonnall o wastraff a'i symud ar draws gwlad i safle gwaredu arall yn cael effaith sylweddol.

Diolchodd y Cadeirydd i Ian Warner am ei gyflwyniad.

6. Adroddiad Amgylcheddol Trawsfynydd (EHSS&Q) – Angharad Rayner

Cyflwynodd Angharad Rayner yr adroddiad EHSS&Q (Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Ansawdd), gan nodi bod yr Adroddiad Amgylcheddol yn cael ei gyflwyno'n flynyddol, ac felly nid oedd ar gael ar hyn o bryd.

Y gwaith mwyaf arwyddocaol a wnaethpwyd ers y cyfarfod diwethaf oedd dymchwel y bloc gweinyddol, a gwblhawyd heb ddim problemau.

Gwaith allweddol a oedd bron wedi'i gwblhau oedd gosod a chomisiynu Cyfleusterau Gweddillion Elfennau Tanwydd y De a'r Gogledd.

Roedd yr hen Gynllun Argyfwng Wrth Gefn wedi symud ymlaen i'r cynllun newydd mewn cydweithrediad agos â'r ONR.

Roedd y gweithgarwch uchod yn ychwanegol at waith arall fel symud asbestos, cynnal a chadw'r safle, datgomisiynu draeniau a rheoli gwastraff. Roedd llawer o waith wedi'i wneud ar y safle prysur hwn heb ddim problemau mawr.

O gofio'r llwyth gwaith a'r cymhlethdodau, roedd ambell fater bach pwysig wedi dod i'r amlwg ac roedd gwersi wedi'u dysgu. E.e. rheoli pypiau samplau awyru, diogeled uwch wrth y brif fynedfa, cyfrifo mwy manwl yn achos ymbelydredd cefndir i ategu nodweddion gwastraff ac ail-werthuso'r berthynas a chyfathrebu â chontractwyr haen 2.

Roedd ymgyrchoedd diogelwch yn cael eu datblygu, gan gynnwys gweithio ar uchder, safonau a disgwyliadau, ac ymddygiadau a chanfyddiad o risgiau. O ran arweinyddiaeth diogelwch ar lefelau uwch, roedd gwaith yn parhau i ehangu effeithiolrwydd arweinyddiaeth weladwy.

Cwestiynau a sylwadau

Gofynnodd Meredydd Williams - Cyngor Cymuned Maentwrog am fanylion am brofion samplau dŵr o'r llyn o'u cymharu â'r afon. Ymateb Siôn Richards, Magnox oedd bod rhaid bod yn ofalus sut yr oedd ymbelydredd yn cael ei fesur, gan y byddai'n uwch yn y llyn nag yn yr afon; fodd bynnag, cafwyd sicrwydd bod y lefelau'n isel. Gofynnodd Meredydd

Williams am graff o ganlyniadau'r llyn. Cytunwyd y gallai Magnox gyflenwi'r graffiau a byddai Siôn yn cysylltu â Meredydd.

7. Adroddiad gan Bwyllgor Ymgynghorol Trawsfynydd ar Gynlluniau Argyfwng – Simon Dawson

Nid oedd Simon Dawson yn bresennol yn y cyfarfod, felly bu Angharad Rayner yn ymdrin â'r mater.

Eglurwyd y newidiadau i'r cynllun argyfwng: roedd y ganolfan rheoli argyfyngau wedi cael ei symud i ganolfan ymateb i argyfyngau ym Mhen Pen y Bryn. Roedd y safle wedi parhau i gynnal ymarferiadau ac roedd contractwyr ar y safle wedi asesu eu gallu i achub. Yn Ionawr / Chwefror, cafodd yr arferion gweithio hyn eu datblygu ymhellach i'w gwneud yn fwy heriol ac i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau newydd. Roedd amserlen o ymarferiadau wedi'i llunio. Roedd Trawsfynydd yn un o ddau safle a oedd yn anelu am shifftiau 24/7 erbyn Medi 2018. Dim ond y timau diogeled fyddai'n bresennol ar y safle yn ystod oriau tawel. Roedd y gwasanaethau brys hefyd yn rhan o'r ymgynghoriadau ar weithdrefnau argyfwng.

Gwestiynau a sylwadau

Gofynnodd Idwal Williams, Trawsnewid a fyddai unrhyw newid yn nifer y staff yn dilyn mabwysiadu'r patrwm shifftiau newydd. Eglurodd Martin Moore fanylion y patrwm shifftiau, gan ychwanegu nad oedd dim diswyddiadau wedi'u cynllunio; fodd bynnag gellid disgwyl rhai ymddeoliadau.

8. Adroddiad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear – Nick Blackburn

Nid oedd Nick Blackburn yn bresennol ond roedd yr adroddiad wedi cael ei ddsbarthu i aelodau'r Grŵp cyn y cyfarfod. Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

9. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Paul Wright

Roedd yr adroddiad wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod.

Tynnodd Paul Wright sylw at waith i glirio deunyddiau o'r safle; nid oedd dim canlyniadau amgylcheddol; fodd bynnag roedd un mater wedi'i gyfrif fel diffyg rheolaeth a rhoddwyd rhybudd safle h.y. y rhybudd isaf.

Tynnwyd sylw at arferion gweithio da o ran gollyngiadau o adweithydd 2; roedd hyn yn cael ei adolygu.

Treial GRR – roedd rhyngweithio parhaus yn digwydd.

Sylweddau anymbelydrol – roedd peth gwastraff yn sgil glanhau ag ager, a oedd o fewn y terfynau a ganiateir, ac roedd ymateb y safle i hyn yn dda

Cwestiynau a sylwadau:

Dim.

10. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Jonathan Jenkin

Roedd yr adroddiad wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod.

Tynnodd Jonathan Jenkin at y datblygiadau mwyaf arwyddocaol, sef terfynu contract Magnox â CFP (Cavendish Fluor Partnership) gyda chytundeb y ddau barti ym mis Medi 2019.

Roedd yr ADN wedi setlo'r hawliad ag *EnergySolutions* a Bechtel a oedd wedi costio £100 miliwn, gan ddod ag achos llys costus a maith i ben. Gwnaethpwyd hyn gyda buddiannau trethdalwyr yn y dyfodol mewn golwg. Byddai ymchwiliad i'r hyn a aeth o'i le, ac a fyddai'n cael ei gadeirio gan Dr Steve Holliday, a chysylltwyd yn y lle cyntaf i drafod cwmpas yr ymchwiliad, a byddai'r ADN yn cydweithredu'n llawn â'r broses. Roedd yr amserlen yn ansicr, fodd bynnag, a gofynnwyd am ganfyddiadau interim erbyn yr hydref, ond efallai y bydd yr etholiad cyffredinol wedi achosi oedi. Byddai'r ADN yn rhoi diweddariadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Nodwyd newidiadau pwysig mewn personél – roedd David Peattie wedi cychwyn yn ei rôl fel y Prif Swyddog Gweithredol newydd a Tom Smith fel Cadeirydd.

Roedd yr ADN wedi cyhoeddi ei gynllun busnes diweddaraf ar ffurf cynllun treigl tair blynedd a diolchodd Jonathan Jenkin i bawb a oedd yn bresennol am yr ymatebion lleol i'r ymgynghoriad ar y cynllun.

Cwestiynau a sylwadau

Gofynnodd Meredydd Williams - Cyngor Cymuned Maentwrog a oedd gan yr ADN ddiddordeb o hyd yn y rheilffordd. Cadarnhaodd Jonathan Jenkin mai'r ADN oedd perchennog yr ased o hyd a bod Network Rail yn rheoli mynediad i'r trac. Eglurodd Jonathan Jenkin ei fod ar ddeall bod NDA Properties wedi siarad â pharti sydd â diddordeb ynglŷn â'r rheilffordd. Roedd gan y rheilffordd werth strategol posibl i'r ardal fenter, ac felly roedd NDA Properties yn cadw perchnogaeth oherwydd y posibilrwydd y gallai fod o fudd i'r gymuned yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: Gwnaeth Meredydd Williams gais i lythyr cadarnhau ar y mater gael ei anfon at Gyngor Cymuned Maentwrog i egluro'r sefyllfa. Gofynnwyd i Jonathan Jenkin fod yn gyfrifol am yr ohebiaeth honno.

Gofynnodd Ceri Stradling, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a oedd unrhyw ganlyniadau i Drawsfynydd o ganlyniad i derfynu'r contract â CFP. Yn ei ymateb, dywedodd Jonathan Jenkin nad oedd y penderfyniad yn effeithio ar Drawsfynydd ac y byddai'r gwaith ar y safle'n mynd yn ei flaen fel arfer.

Dyweddodd John Richards, Cyngor Cymuned Talsarnau wrth sôn am setliad ag EnergySolutions a Bechtel, y dylai'r ADN fod yn atebol i'r holl drethdalwyr. Roedd yn credu bod y sefyllfa'n annerbyniol a gofynnodd pam nad oedd neb wedi tynnu sylw at y mater yn gynharach a gofynnodd a fyddai bonysau'n cael eu talu i staff yr ADN eleni. Roedd Jonathan Jenkin yn cydnabod y syndod a'r dicter a fynegwyd ynglŷn â'r mater a bod yr adroddiad rhagarweiniol wedi amlygu camgymeriadau a wnaethpwyd wrth sgorio'r tendr. Byddai'r ymchwiliad yn edrych yn fwy manwl na'r adroddiad a'r dyfarniad rhagarweiniol. Mewn ymateb i'r cwestiwn am y bonysau, nid oedd y sefyllfa wedi'i chadarnhau gan Fwrdd yr ADN eto; fodd bynnag, ni ddisgwylid dim bonysau corfforaethol eleni.

Cafwyd cwestiwn o'r llawr yn ymwneud â'r ffaith bod CFP wedi colli'r contract oherwydd camgymeriadau'r ADN a gofynnwyd a fyddai'n rhaid gwneud taliad arall o ganlyniad. Dywedodd Jonathan Jenkin fod trafodaethau'n parhau rhwng yr ADN a CFP ar negodiadau ar gyfer gwaith y ddwy flynedd nesaf. Ychwanegodd Martin Moore y byddai Magnox, fel sefydliad, yn anrhydeddu ymrwymadau yn erbyn y contract ac roedd yn credu bod y cynllun yn un cadarn ar gyfer pwy bynnag a fyddai'n ymgymryd â'r gwaith yn 2019. Nid oedd disgwyl i hyn amharu ar y gwaith.

11. Diweddariad ar gynllun economaidd gymdeithasol Magnox – Mair Jones

Cyflwynwyd diweddariad gan Mair Jones. Roedd ffeithlun wedi'i gynhyrchu ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac roedd copiâu ar gael i'r sawl oedd yn bresennol. Roedd 142 o brosiectau, gyda gwerth o fwy na £724k wedi cael cefnogaeth yn y flwyddyn ddiwethaf. Rhestrwyd enghreifftiau o brosiectau lleol a oedd wedi elwa ar y cynllun.

Roedd y cynllun economaidd gymdeithasol nesaf yn yr arfaeth, ac roedd disgwyl ychydig o newidiadau. Gwahoddwyd aelodau'r Grŵp i ymweld â'r stondin ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn ym mis Awst.

Diolchwyd i Mair Jones am gwrdd ag aelodau Cyngor Cymuned Maentwrog i drafod grantiau. Yn anffodus, nod oedd y cyngor cymuned yn gymwys i gael cyllid ar yr adeg hon ac roeddent wedi mynegi eu siom. Dywedodd y Cyng. Williams yr hoffai weld mwy o gymunedau'n gymwys yng nghyffiniau'r orsaf bŵer, gyda mwy o gyfle i gymunedau lleol ddylanwadu ar y meini prawf cymhwysedd yn ogystal â mwy o fuddsoddiad yn y gymuned leol, yn enwedig os bydd gwastraff yn cael ei gadw ar y safle. Cynigiodd Mair Jones gymorth pe byddai'r cyngor cymuned yn dymuno a chynigiodd gyfleu ei sylwadau ynglŷn â'r meini prawf. Ychwanegodd Jonathan Jenkin y gellid adolygu'r meini prawf a'i bod yn bwysig bod yn hyblyg. Fodd bynnag, gan ei fod yn arian cyhoeddus roedd yn rhaid cael mesurau rheoli. Ychwanegodd y Cyng. Williams fod mathau eraill o gynhyrchu ynni wedi buddsoddi mwy yn eu cymunedau lleol na'r safle hwn, ac ymatebodd yr ADN drwy ychwanegu bod sefyllfa Trawsfynydd yn wahanol gan ei fod yn datgomisiynu, ac nid yn cynhyrchu trydan.

Dangoswyd fideo ar y cynllun a dangoswyd sut yr oedd Cymru wedi elwa ar y gweithgarwch economaidd gymdeithasol.

12. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd – Richard Clarke

Nid oedd Richard Clarke yn bresennol ond roedd Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd / CNC wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

13. Datblygu Safle Trawsfynydd – Sesiwn Wybodaeth – John Idris Jones, Cadeirydd: Ardal Fenter Eryri

Cafwyd manylion am y ddau safle sydd o fewn yr Ardal Fenter, sef canolfan awyrofod Llanbedr a Thrawsfynydd.

Roedd canolfan awyrofod Llanbedr yn safle unigryw ar gyfer awyrennau di-griw ac awyrennau â pheilotiaid ac eglurodd John Idris Jones fanylion am y parthau hedfan cyfyngedig unigryw uwchben yr ardal yn ogystal â gwybodaeth am yr amgylchedd cywir ar gyfer datblygiadau o'r fath. Er hynny, roedd llawer o waith i'w wneud o hyd, gan gynnwys gwell mynediad i'r safle. Uchelgais Llywodraeth y DU oedd creu diwydiant gofod a fyddai'n werth £40 biliwn. Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddenu cyllid o ddiwydiannau preifat i ddatblygu'r cyfleusterau. Roedd gwaith yn parhau i godi proffil yr ardal fenter ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc.

Gwelwyd sleid a oedd yn dangos yr uchelgais ar gyfer y sector niwclear yn genedlaethol. Dangoswyd amserlen ar gyfer SMR (Adweithydd Modiwlaid Bychan) yn y DU, o gyhoeddi ymchwil niwclear a rhaglen ddatblygu yn 2015, hyd y camau nesaf i amlinellu polisi i asesu un neu ddau o lwybrau ar gyfer SMR. Nid oedd canlyniad y datganiadau o ddiddordeb ym mis Mawrth 2016 ar gael eto.

Cafodd manylion am ddatblygiad cynnig Trawsfynydd eu cyflwyno, gan gynnwys dadrisgio, gyda nifer o astudiaethau'n dangos bod y safle'n addas ar gyfer SMR. Roedd ymgysylltiad positif â darpar werthwyr, datblygwyr a rhanddeiliaid yn parhau; fodd bynnag roedd y cynnydd yn araf iawn.

Cwestiynau a sylwadau

Dywedodd John Richards, Cyngor Cymuned Talsarnau bod sôn am ffordd osgoi i Lanfair ond nid am ffordd fynediad newydd i'r safle. Cadarnhaodd John Idris Jones fod cais cynllunio wedi'i wneud i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i symud ymlaen. Eglurodd John Idris Jones mai dim ond tri safle yn y DU oedd yn addas ar gyfer datblygiad o'r fath. Roedd dau gwmni wedi dangos diddordeb mewn defnyddio Llanbedr i lansio lloerennau ac roedd disgwyl adborth y Llywodraeth ar hyn.

14. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd dim materion eraill i'w trafod.

15. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Llun 4 Rhagfyr 2017.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a diolchodd i'r cyfieithydd, i Caroline Jones am gymryd y cofnodion ac i Jill Callander am ei gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.35.

**Crynodeb o'r Prif Bwyntiau o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Llun 19 Mehefin 2017**

- Roedd aelodau'r Grŵp wedi cael eu tywys o amgylch y safle cyn y cyfarfod.
- Roedd y Cadeirydd yn bresennol yng Nghyfarfod Cadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd yn Llundain ym mis Tachwedd.
- Ym mis Ionawr, roedd John Richards, Cyngor Cymuned Talsarnau, wedi mynychu gweithdy i randdeiliaid ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol dros y tymor hir.
- Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai digwyddiad Cenedlaethol Rhanddeiliaid yr ADN yn cael ei gynnal ym mis Medi 2017.
- Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cau'r Safle ei adroddiad. Roedd cynnydd da wedi'i wneud ar y safle o ran diogelwch a lleihau peryglon, rhaglenni seilwaith a gofal asedau.
- Dywedodd Cyfarwyddwr Cau'r Safle fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth symud i drefniadau argyfwng diwygiedig.
- Gofynnodd John Idris Jones a oedd cynlluniau i leihau mwy ar uchder yr adeiladau na'r hyn a geir yn y cynlluniau presennol. Ymhelaethodd Jonathan Jenkin (ADN) ar hyn trwy ychwanegu bod astudiaethau wedi'u gwneud ar leihau uchder yn gynnar a dymchwel parhaus gyda gwybodaeth wedi'i chyflwyno i'r ADN.
- Gofynnodd y Cadeirydd i gyfranwyr fod yn ofalus wrth ddefnyddio acronymau mewn adroddiadau.
- Cyflwynodd Ian Warner ddiweddariad ar gyflwr terfynol Trawsfynydd wedi'i optimeiddio a chafwyd cyflwyniad ar y GRR (Canllaw ar Ofynion Rhyddhau).
- Cyflwynodd Angharad Rayner yr adroddiad EHSS&Q (Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Ansawdd).
- Gofynnodd Meredydd Williams am graff o ganlyniadau'r llyn. Cytunwyd y gallai Magnox gyflenwi'r graffiau'n uniongyrchol.
- Cyflwynodd Angharad Rayner adroddiad Pwyllgor Ymgynghorol Trawsfynydd ar Gynlluniau Argyfwng a chafwyd eglurhad o'r newidiadau i'r cynllun argyfwng.
- Cyflwynodd Paul Wright yr Adroddiad Amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cyflwynodd Jonathan Jenkin adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a thynnodd sylw at y datblygiadau mwyaf arwyddocaol, ac yn benodol terfynu contract Magnox â CNP (Cavendish Fluor Partnership) ym mis Medi 2019, gyda chytundeb y ddau barti.
- Roedd yr ADN wedi setlo'r hawliad ag EnergySolutions a Bechtel a oedd wedi costio £100 miliwn, gan ddod ac achos llys hir a chostus i ben.
- Cafwyd adborth gan Jonathan Jenkin ar y sefyllfa gyda'r rheilffordd, gan ychwanegu ei bod o werth strategol posibl i'r ardal fenter, ac felly roedd NDA Properties yn cadw perchnogaeth gan ei bod yn bosibl y bydd o fudd i'r gymuned yn y dyfodol. Gofynnodd Meredydd Williams fod llythyr yn cadarnhau hyn yn cael ei anfon at Gyngor Cymuned Maentwrog i egluro'r sefyllfa.

- Cafwyd diweddariad gan Mair Jones ar Gynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox a manylion am y buddiolwyr lleol. Cafwyd awgrym y dylid adolygu'r meini prawf cymhwysedd i ffafrio cymunedau lleol.
- Cafwyd eglurhad a diweddariad gan John Idris Jones ar y ddau safle yn yr Ardal Fenter, sef Canolfan awyrofod Llanbedr a Thrawsfynydd.